## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

### 1. Amcanion polisi

Bydd Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn sefydlu cyfundrefn diogelwch adeiladau newydd a fydd yn cwmpasu meddiannu adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yng Nghymru a'u rheoli'n barhaus.

Mae'r gyfundrefn newydd yn sicrhau nad effeithir yn anghymesur ar blant o gymharu â phreswylwyr eraill mewn adeiladau amlfeddiannaeth. Yn wir, mae'r newidiadau wedi'u dylunio i ddarparu manteision ychwanegol i bob preswylydd, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Mae'r Bil yn diffinio preswylydd fel unigolyn sy'n 18 oed neu'n hŷn, yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Er mai nod y mesur yw sicrhau diogelwch pob preswylydd, ni fydd unigolion dan 18 oed yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a osodir ar breswylwyr ac ni fydd hawl ganddynt i gael yr wybodaeth benodedig ychwaith. Yn hytrach, byddant yn cael gwybodaeth fel rhan o'r aelwyd ehangach.

Un o ddibenion allweddol y Bil yw sicrhau bod preswylwyr pob adeilad preswyl amlfeddiannaeth sydd o fewn y cwmpas, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn ddiogel a gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer Prif Berson Atebol / Person Atebol i asesu a rheoli risgiau i ddiogelwch adeiladau preswyl amlfeddiannaeth pan fyddant wedi'u meddiannu, ac ymgysylltu â phreswylwyr sy'n oedolion yn effeithiol, gan ddarparu gwybodaeth briodol ac ymateb i gwynion preswylwyr.

### 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Er mwyn cefnogi'r broses o roi ein diwygiadau ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar bapur gwyn[1] ac ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys lesddeiliaid a thenantiaid, grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig penodol, cymdeithasau tai, awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub a'r diwydiant tai.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil hefyd, gan gynnwys:

- Ymchwil â lesddeiliaid ethnig leiafrifol a lesddeiliaid anabl[2];
- ymchwil ymhlith preswylwyr o bob math ac o bob grŵp deiliadaeth, sy'n byw mewn adeiladau y diffiniwyd eu bod o fewn cwmpas y gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd[3];

[1] Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru | LLYW.CYMRU

[2] Heb ei chyhoeddi

[3] Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr

- adolygiad o dystiolaeth ar ddylanwadau dynol mewn tanau cartref, ac mewn adeiladau wedi'u haml-feddiannu yn benodol[4].

Caiff canlyniadau'r ymchwil hon, data ar aelwydydd yng Nghymru a chanfyddiadau o'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid eu trafod isod.

Mae data o Gyfrifiad 2021 a gyflwynir yn Nhabl 1 yn dangos o blith yr 1,347,100 o aelwydydd yng Nghymru, bod 168,400 (13%) ohonynt yn byw mewn fflatiau, fflatiau deulawr neu randai [5]. Yn gyffredinol, caiff yr aelwydydd hyn eu cwmpasu gan y Bil os byddant wedi'u lleoli mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth sy'n cynnwys dwy uned breswyl neu fwy

**Tabl 1: Aelwydydd yng Nghymru yn ôl y math o annedd, 2021 [Nodyn 1]**

| | Carafán neu fath arall o strwythur symudol neu dros dro | Fflat, fflat deulawr neu randy | Tŷ neu fyngalo cyfan: Ar wahân | Tŷ neu fyngalo cyfan: Tŷ pâr | Tŷ neu fyngalo cyfan: Mewn teras | **Pob annedd** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pob aelwyd** | 4,400 | 168,400 | 384,400 | 431,900 | 358,000 | **1,347,100** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Create a custom dataset - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[Nodyn 1] Ffigurau wedi’u talgrynnu i’r 100 agosaf.

[4] Dylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswylwyr: Adolygiad o Dystiolaeth

[5] Cyfrifiad 2021 Create a custom dataset - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae cyfansoddiad aelwydydd yr ymatebwyr i'r arolwg preswylwyr, a gyflwynir yn Nhabl 2, yn brocsi da ar gyfer cyfansoddiad aelwydydd preswylwyr sy'n oedolion mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy cyffredinol. Mae'r data yn dangos bod cyfran fawr o breswylwyr yn byw ar eu pen eu hunain ac mai nifer cymharol fach o aelwydydd sy'n cynnwys plant.

**Tabl 2: Cyfansoddiad aelwydydd adeiladau preswyl amlfeddiannaeth, 2024**

| Cyfansoddiad aelwydydd | % yr ymatebwyr |
|---|---|
| Byw gyda phartner/priod | 31 |
| Byw gyda phlentyn/plant dan 16 oed | 9 |
| Byw gyda phlentyn/plant dros 16 oed | 2 |
| Byw gydag aelod arall/aelodau eraill o'r teulu | 2 |
| Byw gyda ffrind(iau) / rhannu fflat â rhywun | 4 |
| Rwy'n byw ar fy mhen fy hun | 55 |

Sylfaen: 1,562

Ffynhonnell: Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr, 2024

Mae Tabl 3 yn dangos y canlynol:

- Mae cyfran yr aelwydydd â phlant sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil lai na hanner y ffigur ar gyfer pob annedd. Mae 18,487 o aelwydydd (11%) sy'n byw mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y Bil yn cynnwys plant o gymharu â 321,465 o aelwydydd (24%) â phlant ym mhob annedd.
- Mae aelwydydd â phlant a 2 oedolyn neu fwy yn llai cyffredin mewn adeiladau sydd o fewn y cwmpas (5%) nag ym mhob annedd (18%). Fodd bynnag, nid yw'r un peth yn wir o ran aelwydydd un rhiant sydd yr un mor gyffredin mewn adeiladau sydd o fewn y cwmpas (6%) ag y maent ym mhob annedd (6%).
- Mae aelwydydd â 2 oedolyn a 3 phlentyn neu fwy yn anghyffredin ym mhob annedd (2% o aelwydydd) ond mewn adeiladau sydd o fewn y cwmpas yn arbennig. Dim ond 3% o aelwydydd o'r math hwn oedd yn byw mewn adeiladau sydd o fewn y cwmpas.

**Tabl 3. Aelwydydd yng Nghymru â phlant yn ôl nodweddion yr aelwyd a'r math o annedd, 2021 [Nodyn 1]**

| | Fflat, fflat deulawr neu randy | | Pob aelwyd | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Dim oedolion, neu un oedolyn ac un plentyn neu fwy | 9,800 | 6% | 74,400 | 6% |
| Tri oedolyn neu fwy: Un plentyn neu fwy | 1,000 | 1% | 61,500 | 5% |
| Dau oedolyn: Un neu ddau o blant | 6,900 | 4% | 158,200 | 12% |
| Dau oedolyn: Tri phlentyn neu fwy | 800 | 0.5% | 27,400 | 2% |
| **Pob aelwyd â phlant** | **18,500** | **11%** | **321,500** | **24%** |
| **Aelwydydd heb blant** | **150,000** | **89%** | **1,025,700** | **76%** |
| **Pob aelwyd** | **168,400** | | **1,347,100** | |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

[Nodyn 1] Ffigurau wedi’u talgrynnu i’r 100 agosaf. Mae canrannau wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau heb eu talgrynnu.

Create a custom dataset - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 hefyd yn cynnwys data am gyfansoddiad aelwydydd ar gyfer tai/byngalos a fflatiau. Fel gyda data'r cyfrifiad, mae Tabl 4 yn dangos mai'r mathau mwyaf cyffredin o aelwydydd sy'n byw mewn fflatiau yw oedolion sengl, pensiynwyr sengl, a chyplau sy'n oedolion heb blant.

Mae data o Gyfrifiad 2021 a gyflwynir yn Nhabl 5 yn dangos bod mwyafrif mawr (95%) o dai amlfeddiannaeth wedi'u meddiannu gan dri oedolyn neu fwy heb blant. Mae aelwydydd un person yn brin (3%) ac mae aelwydydd â phlant yn fwy prin byth (1%).

**Tabl 4. Math o aelwyd yn ôl y math o annedd, 2017-18**

| **Math o aelwyd** | **Tŷ neu fyngalo (%)** | **Fflat (%)** |
|---|---|---|
| Cwpl sy'n bensiynwyr - cwpl lle mae un neu fwy o'r oedolion o oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu drosodd | 17 | - |
| Pensiynwr sengl - oedolion sengl sydd o oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu drosodd | 17 | 27 |
| Cwpl â phlant - cwpl nad ydynt yn bensiynwyr sydd â phlant dibynnol | 15 | - |
| Cwpl heb blant - cwpl nad ydynt yn bensiynwyr heb blant dibynnol | 11 | 7 |
| Oedolyn sengl â phlant - oedolyn sengl nad yw'n bensiynwr sydd â phlant dibynnol | 7 | - |
| Oedolyn sengl heb blant - oedolyn sengl nad yw'n bensiynwr heb blant dibynnol | 10 | 37 |
| Tri oedolyn neu fwy â phlant - tri oedolyn neu fwy â phlant dibynnol | 5 | - |
| Tri oedolyn neu fwy heb blant - yn perthyn – tri oedolyn neu fwy heb blant dibynnol, sy'n perthyn i'w gilydd | 7 | - |
| Tri oedolyn neu fwy heb blant - ddim yn perthyn – tri oedolyn neu fwy heb blant dibynnol, nad ydynt yn perthyn i'w gilydd | 4 | - |
| Aelwydydd eraill | 5 | - |

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Cymru

Mae '-' yn golygu y cafwyd llai na 30 o ymatebion.

Arolwg Cyflwr Tai Cymru: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU

**Tabl 5: Tai amlfeddiannaeth yn ôl maint a'r math o aelwyd, 2021**

| | Tai amlfeddiannaeth bach | | Tai amlfeddiannaeth mawr | | Pob tŷ amlfeddiannaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Aelwyd un person: Un oedolyn 65 oed neu'n iau | 76 | 2% | 145 | 5% | 221 | 3% |
| Un plentyn neu fwy yn yr aelwyd | 82 | 2% | 17 | 1% | 99 | 1% |
| Tri oedolyn neu fwy: Dim plant | 4,246 | 96% | 2,516 | 93% | 6,762 | 95% |
| Arall | 11 | 0% | 24 | 1% | 35 | 0% |
| **Cyfanswm** | **4,415** | **100%** | **2,702** | **100%** | **7,117** | **100%** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o Gyfrifiad 2021

Un digwyddiad eithriadol oedd trychineb Grenfell. Fodd bynnag, tynnodd sylw at yr effeithiau dinistriol y gall preswylwyr, gan gynnwys plant, eu dioddef. Bu farw 17 o'r 67 o blant a oedd yn byw yn Nhŵr Grenfell yn y tân a laddodd 72 o bobl i gyd[6]. Cafodd y tân effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc o ran eu hiechyd meddwl a'u llesiant yn gyffredinol.

Mae llawer o'r plant a'r bobl ifanc yr effeithiwyd arnynt wedi dioddef problemau iechyd meddwl difrifol, gan gynnwys anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD), gorbryder ac iselder. Yn ogystal, cafodd nifer o deuluoedd eu dadleoli, gan orfod byw mewn llety dros dro fel gwestai, a wnaeth darfu ar addysg llawer o blant.

Mae Gwasanaeth Iechyd a Llesiant y GIG ar gyfer Grenfell wedi bod yn darparu cymorth iechyd meddwl, gan gynnwys therapïau sy'n canolbwyntio ar drawma fel Therapi Gwybyddol Ymddygiadol a Therapi Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid. [7]

Bydd adeiladau preswyl uchel iawn, fel Tŵr Grenfell, o fewn cwmpas y Bil yn ogystal ag adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eraill yng Nghymru.
Fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i dân Tŵr Grenfell, sefydlwyd Tîm Rhaglen Diogelwch Adeiladau gyda'r nod o gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r system diogelwch adeiladau yng Nghymru. Roedd rhan o'r adolygiad hwn yn ymwneud â chyflwyno cynigion ar gyfer diwygiadau helaeth i'r ffordd y caiff adeiladau amlfeddiannaeth yng Nghymru eu dylunio, eu hadeiladu, eu meddiannu a'u rheoli. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Papur Gwyn 'Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru'. Ymgynghorodd y Papur Gwyn ar y newid

---

[6] https://disabilitytalk.co.uk/2021/04/05/almost-half-of-grenfell-deaths-were-disabled-people-and-children/

[7] The Grenfell Tower Fire: The Mental Health & Wellbeing of Children

diwylliannol a systemaidd a gynigiwyd, gan amlinellu cynigion ar gyfer diwygiadau i wneud adeiladau amlfeddiannaeth yn fwy diogel i breswylwyr.

Roedd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 12 Ionawr a 12 Ebrill 2021 a chafwyd 95 o ymatebion wedi'u cwblhau. Lluniodd Llywodraeth Cymru fersiwn hawdd ei deall, Newid y rheolau i wneud adeiladau'n fwy diogel ymgynghoriad-hawdd-ei-ddeall.pdf (llyw.cymru) a lluniodd fideo byr yn crynhoi prif amcanion gwella ein dull o ymdrin â diogelwch adeiladau. Adeiladau mwy diogel yng Nghymru: fideo crynodeb o'r ymgynghoriad.

Roedd ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- 28 o ymatebion i'r ffurflen ymgynghori ar-lein
- 50 o ymatebion drwy e-bost a oedd yn dilyn fformat y ffurflen ymgynghori ar-lein
- 17 o ymatebion ar ffurf ymateb naratif i'r cynigion, hefyd drwy e-bost

Ymateb yn ôl sector:

| **Math o ymateb** | **Nifer** |
|---|---:|
| Corff Proffesiynol/Diwydiant | 27 |
| Aelodau o'r cyhoedd | 14 |
| Rheolaeth Adeiladu/Cynllunio | 12 |
| Awdurdod lleol | 7 |
| Landlord Cymdeithasol (awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) | 6 |
| Diwydiant | 6 |
| Sefydliadau'r trydydd sector | 5 |
| Asiant Rheoli Eiddo Preswyl | 5 |
| Arall | 5 |
| Sector Tân | 5 |
| Sector cyhoeddus arall | 2 |
| Heb ei nodi | 1 |
| Cyfanswm | 95 |

Er mwyn cefnogi'r broses o roi'r diwygiadau hyn ar waith, comisiynodd Llywodraeth Cymru IFF Research i gynnal ymchwil ymhlith preswylwyr o bob math, gan gynnwys preswylwyr â phlant, ac o bob grŵp deiliadaeth, sy'n byw mewn adeiladau y diffiniwyd eu bod o fewn cwmpas y gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil i ymddygiadau preswylwyr mewn adeiladau a gwmpesir gan raglen diwygio

Diogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mawrth 2024.

Cynhaliwyd arolwg o 1,562 o breswylwyr adeiladau amlfeddiannaeth yng Nghymru, ac yna 24 o gyfweliadau ansoddol manwl, lle dewiswyd preswylwyr o blith y rhai a ymatebodd i'r arolwg. Defnyddiwyd dull dadansoddi yn ôl segmentau i ddosbarthu preswylwyr yn grwpiau, yn seiliedig ar eu hagweddau a'u hymddygiadau. Diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth: ymchwil preswylwyr.

O fewn yr adroddiad, cydnabuwyd bod rhai preswylwyr mewn cartrefi rhent cymdeithasol yn fwy tebygol o nodi bod eu diffyg hyder yn eu gallu i adael eu heiddo yn ddiogel pe bai tân o ganlyniad i'r ffaith bod gan aelod o'u haelwyd anabledd neu broblemau symudedd oherwydd oedran.


Nododd yr adroddiad y gwahaniaethau demograffig mewn ymddygiadau diogelwch tân. Canfu Dylanwadau ar Ymddygiadau Diogelwch Tân Preswylwyr: Adolygiad o Dystiolaeth chwe ffynhonnell a oedd yn trafod pwnc plant a phobl ifanc mewn tanau. Roedd y canfyddiadau yn cynnwys y canlynol:

- mae plant ifanc yn aml yn wynebu mwy o risg o anaf mewn tân gan nad oes ganddynt y profiad i adnabod y risg a berir gan dân ac yn aml ni fydd larymau mwg yn llwyddo i'w deffro
- mae plant hefyd yn llai tebygol o allu gadael adeilad heb gymorth pe bai tân
- mae risg gynyddol y bydd plant smygwyr yn fwy tebygol o gael gafael ar danwyr sigaréts a matsis yn y tŷ mewn ffordd anniogel
- mae aelwydydd â phlant yn fwy tebygol o ymarfer cynllun dianc rhag tân.

Fodd bynnag, mae awgrymiadau bod plant yn wynebu mwy o risg yn mynd yn groes i'r data ar anafiadau o ganlyniad i dân ar gyfer Cymru. Mae Siart 1 yn dangos bod cyfran y plant sy'n dioddef anafiadau oherwydd tân yn llawer is na chyfran y plant yn y boblogaeth. Mae hyn yn awgrymu er y gallai plant ifanc iawn wynebu risg uwch, ni cheir effaith anghymesur ar blant yn gyffredinol o gymharu â'u cynrychiolaeth yn y boblogaeth. Prin iawn y bydd “chwarae â thân” (fel y caiff ei gofnodi) yn achosi tân ac roedd hyn ond yn gyfrifol am 8 achos yn unig o 1500 o danau damweiniol a bwriadol, ac nid o reidrwydd y rhai a ddechreuwyd gan blant yn chwarae â matsis neu danwyr[8].

[8] Ystadegau achosion tân ac achub: Ebrill 2023 i Fawrth 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

**Siart 1: Cyffredinrwydd cymharol plant sy'n dioddef anafiadau oherwydd tân yng Nghymru fesul blwyddyn**




Ffynhonnell: StatsCymru

Anafusion yn ôl oedran a blwyddyn ariannol. Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU

Caiff asesiadau effaith pellach eu hystyried, yn ystod y gwaith o weithredu a datblygu rheoliadau a chanllawiau gyda grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a rhieni.

**Effeithiau cadarnhaol**

Mae'r gyfundrefn newydd yn sicrhau nad effeithir yn anghymesur ar blant o gymharu â phreswylwyr eraill mewn adeiladau amlfeddiannaeth. Yn wir, mae'r newidiadau wedi'u dylunio i ddarparu manteision ychwanegol i bob preswylydd, gan arwain o bosibl at ganlyniadau mwy cadarnhaol iddynt o ran adeiladau mwy diogel.

**Gwell Diogelwch:** Nod y Bil yw creu amgylcheddau byw mwy diogel drwy leihau'r risg o dân a risgiau strwythurol, gan fod o fudd i bob preswylydd, gan gynnwys plant.

**Iechyd a Llesiant:** Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Berson Atebol / Person Atebol asesu a rheoli risgiau i ddiogelwch adeiladau a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i breswylwyr beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n creu risg sylweddol o dân neu'n arwain at risg strwythurol. . Bydd dulliau gwell i ymgysylltu â phreswylwyr a phroses gwyno ffurfiol yn sicrhau bod pryderon preswylwyr yn cael eu clywed ac yr ymdrinnir â nhw. Bydd hyn yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch i bob preswylydd, sy'n hanfodol ar gyfer eu llesiant seicolegol ac emosiynol.

**Addysg ac Ymwybyddiaeth:** Bydd y Bil yn rhoi dyletswydd ar y Prif Berson Atebol/Person Atebol i rannu gwybodaeth am ddiogelwch ac ymgysylltu â phreswylwyr 18 oed a throsodd. Er na fydd plant yn ymwneud â'r strategaeth ymgysylltu, gall rhieni a gwarcheidwaid ennyn ymdeimlad o gyfrifoldeb a phwysleisio pwysigrwydd mesurau diogelwch trwy eu cynnwys mewn trafodaethau diogelwch. Gall y dull gweithredu hwn eu grymuso i ymddwyn yn gyfrifol a chynnal eu diogelwch. Yn ogystal, gall cynnal y sgyrsiau hyn feithrin dulliau cyfathrebu agored, datblygu ymddiriedaeth ac annog ymddygiad cadarnhaol.

Nododd Adolygiad Hackitt y dylai preswylwyr gael eu dwyn i gyfrif os ydynt yn ymddwyn mewn ffordd sy'n peri risg iddyn nhw neu i'w cymdogion. Mae ymddygiadau a allai beri risg a ar y cyd, mae'r gweithredoedd hyn yn tanseilio ymdrechion i gynnal amgylchedd byw diogel yn cynnwys:

- peidio â chydweithredu ag asesiadau diogelwch adeiladau drwy atal mynediad neu fethu â darparu gwybodaeth angenrheidiol
- ymgymryd ag arferion anniogel mewn ardaloedd cyffredin megis ymyrryd â dyfeisiau diogelwch
- gadael deunyddiau peryglus neu eitemau mewn coridorau sy'n rhwystro llwybrau gadael ac yn cynyddu'r risg o dân
- storio eiddo personol mewn coridorau sy'n rhwystro llwybrau gadael
- breswylwyr yn ymyrryd â dyfeisiau diogelwch yn eu hanheddau preifat.

Felly, nod y Bil yw gwella diogelwch adeiladau drwy ddiffinio dyletswyddau preswylwyr mewn perthynas â diogelwch tân a strwythurol yn glir. Mae cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn yn hollbwysig er mwyn cynnal amgylchedd byw diogel mewn adeiladau preswyl.

Rhoddir dyletswyddau ar bob preswylydd sy'n oedolyn a pherchnogion unedau preswyl mewn adeiladau rheoledig wedi'u meddiannu.  A bydd disgwyl i breswylwyr a pherchnogion, o dan amgylchiadau penodedig, gydymffurfio â chais gan y Person Atebol am fynediad i'w cartref. Bydd y dyletswyddau yn cynnwys:

### Dyletswyddau Diogelwch Tân

- Rhannau Cyffredin: Rhaid i breswylwyr a pherchnogion beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n creu risg sylweddol y bydd risg diogelwch tân yn codi mewn perthynas â'r adeilad.
- Unedau Preswyl: Ni ddylai gweithgareddau mewn unedau preswyl greu risg sylweddol y bydd tân yn lledaenu o'r uned na chynyddu unrhyw risg o'r fath sydd eisoes yn bodoli.
- Ymyrryd â Mesurau Diogelwch: Rhaid i breswylwyr a pherchnogion beidio â thynnu mesurau diogelwch tân yn rhannau cyffredin yr adeilad, eu difrodi nag ymyrryd â nhw, heb esgus rhesymol.

## Dyletswyddau Diogelwch Strwythurol

- Rhannau Cyffredin: Rhaid i weithgareddau yn y rhannau cyffredin beidio â chreu risg sylweddol y bydd risg diogelwch strwythurol yn codi.
- Unedau Preswyl: Rhaid i weithgareddau mewn unedau preswyl beidio â chreu risg sylweddol y bydd risg diogelwch strwythurol yn codi.

## Diffiniad o Rannau Cyffredin

- Mae'n cynnwys balconïau a rhannau o falconïau sy'n rhan o uned breswyl.

## Cais am Wybodaeth

- Rhaid i breswylwyr a pherchnogion gydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth angenrheidiol gan y prif berson atebol neu'r person atebol sy'n gyfrifol am yr adeilad neu ran o'r adeilad lle mae'r uned breswyl wedi'i lleoli er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth â rheoliadau diogelwch.

Mae'r Bil yn pwysleisio pwysigrwydd cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn er mwyn sicrhau diogelwch pob preswylydd ac uniondeb strwythurol yr adeilad. Mae'n amlinellu cyfrifoldebau preswylwyr a pherchnogion i roi gwybodaeth angenrheidiol i'r Prif Berson Atebol / Person Atebol er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth â rheoliadau diogelwch.

Gall pobl ifanc 16-17 oed â phrofiad o fod mewn gofal fyw mewn adeiladau a gwmpesir gan y Bil. Er na fydd nifer mawr o bobl ifanc yn y sefyllfaoedd hyn, mae Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i roi cymorth ariannol i bobl â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys help gyda llety ac anghenion cynnal a chadw. At ei gilydd, ni ddisgwylir i'r gyfundrefn newydd gael effaith anghymesur ar blant neu bobl ifanc.

## Effeithiau Negyddol

Yr effaith negyddol fwyaf sylweddol ar blant fydd cost y gyfundrefn newydd i'w teuluoedd. Mae'n bosibl y gallai'r costau hyn gael yr effaith fwyaf ar y rhai â'r lleiaf o allu i dalu.

Mae cyfraddau tlodi yn amrywio i wahanol fathau o deuluoedd. Mae aelwydydd â phlant yn tueddu i gael cyfraddau tlodi uwch oherwydd bod mwy o bobl yn yr aelwyd o gymharu â'i hincwm bosibl[9]. Yn y DU, mae 12% o gyplau heb blant yn byw mewn tlodi o gymharu â 23% o gyplau â phlant a 42% o aelwydydd un

[9] Inequalities in poverty, Y Sefydliad Iechyd, Gorffennaf 2024 Inequalities in poverty | Y Sefydliad Iechyd

rhiant[10]. Mae gan deuluoedd â thri phlentyn neu fwy gyfradd dlodi uwch (roedd 43% o blant mewn teuluoedd mawr mewn tlodi yn y DU yn 2021/22)[11].

Mae plant sy'n byw mewn llety rhent preifat neu gymdeithasol, y rhai mewn aelwydydd heb waith, a phlant Du ac Asiaidd hefyd yn fwy tebygol o fod mewn tlodi[12]. Ar y cyfan, mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar rai plant na'r boblogaeth gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys plant sy'n byw mewn:

- Aelwydydd un rhiant
- Aelwydydd mawr
- Aelwydydd Du neu Asiaidd
- Cartrefi rhent

Mae cyfraddau tlodi yn uchel iawn ar gyfer rhai grwpiau ethnig leiafrifol[13]. Yn benodol, rhwng 2019/20 a 2021/22, roedd tua hanner y bobl mewn aelwydydd Pacistanaidd (51%) a Bangladeshaidd (53%) yn byw mewn tlodi, gyda lefelau tlodi hyd yn oed uwch ar gyfer plant yn yr aelwydydd hynny (61% a 62% yn y drefn honno). Roedd tua phedwar o bob deg person mewn aelwydydd â phenteulu o gefndir Asiaidd heblaw am Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd neu Tsieineaidd (39%) neu aelwydydd o gefndiroedd Du Affricanaidd (42%) mewn tlodi, ac roedd oddeutu hanner y plant yn yr aelwydydd hyn mewn tlodi.

Roedd yr holl grwpiau hyn yn llawer mwy tebygol o fod mewn tlodi na phobl mewn aelwydydd â phenteulu o ethnigrwydd Gwyn (19%) (roedd 25% o blant mewn aelwydydd â phenteulu o ethnigrwydd Gwyn mewn tlodi).

I fudwyr, gall natur mudo fod yn ffactor andwyol ychwanegol[14]: er enghraifft, p'un a oedd mudo drwy ddulliau sy'n gwneud cyflogaeth yn anos, megis ceisio lloches, a pha mor ddiweddar y cyrhaeddodd pobl y DU.

Ar y cyfan, mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl a theuluoedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol na'r boblogaeth gyfan.

Yn 2021/22, y gyfradd tlodi i bobl anabl oedd 31%, 12 pwynt canran yn uwch na'r gyfradd ar gyfer y rhai nad oeddent yn anabl[15]. Roedd cyfraddau tlodi hefyd yn

[10] Inequalities in poverty, Y Sefydliad Iechyd, Gorffennaf 2024 Inequalities in poverty | Y Sefydliad Iechyd

[11] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

[12] Child poverty: trends and policy options, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Hydref 2024, Child poverty: trends and policy options | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

[13] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

[14] Inequalities in poverty, Y Sefydliad Iechyd, Gorffennaf 2024 Inequalities in poverty | Y Sefydliad Iechyd

[15] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

amrywio yn ôl pwy oedd yn anabl yn y teulu[16]. Roedd tlodi yn arbennig o uchel ymhlith teuluoedd lle roedd oedolion a phlant anabl (39%). Ar y cyfan, mae cost y gyfundrefn newydd yn debygol o gael effaith fwy sylweddol ar bobl a phlant anabl na'r boblogaeth gyfan. Mae pobl anabl yn fwy tebygol o wynebu effaith negyddol os ydynt:

- Yn byw mewn aelwydydd ag oedolion a phlant anabl
- Yn meddu ar amhariadau meddyliol hirdymor a chyfyngus

Ceir rhagor o wybodaeth am gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Bydd y dyletswyddau a roddir ar breswylwyr a'r Prif Berson Atebol / Person Atebol yn cael effaith fuddiol ar ddiogelwch pob preswylydd, gan gynnwys plant. Fodd bynnag, mae posibilrwydd y bydd effeithiau negyddol i rai plant o dan amgylchiadau penodol.

Gallai'r ddyletswydd ar breswylwyr i ganiatáu mynediad er mwyn i risgiau diogelwch adeiladau gael eu hasesu a'u rheoli gael effeithiau negyddol ar breswylwyr sy'n oedolion a phreswylwyr sy'n blant. Er mwyn lliniaru'r risg hon, caiff mesurau diogelu eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau y rhoddir cyfnod rhybudd digonol a chyfle i breswylwyr nodi dyddiad ac amser hwylus i'r person atebol gael mynediad.

Weithiau, mae'n bosibl y bydd plant a phobl ifanc yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n creu risgiau i ddiogelwch adeiladau, megis drwy adael beiciau mewn coridorau a rhwystro llwybrau dianc. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fyddai plant eu hunain yn gallu torri'r dyletswyddau hyn, gan fod yn rhaid i breswylwyr sy'n ddarostyngedig i'r gyfundrefn newydd fod yn 18 oed neu drosodd. Mewn achosion o'r fath, cyfrifoldeb y rhiant neu'r gwarcheidwad fyddai sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hyn.

Bydd y dull gweithredu newydd yn canolbwyntio ar ddeialog, codi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau a hyrwyddo newid diwylliannol yn y lle cyntaf. Dim ond ar gyfer tor rheolau difrifol neu fel mesur diweddarach y dylid defnyddio camau gorfodi statudol a chosbau. Y disgwyliad yw y caiff camau anstatudol eu cymryd gyntaf yn y rhan fwyaf o achosion, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y tor, ei feiusrwydd neu'r niwed posibl a achoswyd ganddo. Y bwriad yw er bod y Bil yn caniatáu i gamau gorfodi gael eu cymryd pan fo angen, dewis olaf fydd camau rheoleiddiol. Ni fyddai camau gorfodi yn targedu plant neu bobl ifanc dan 18 oed ond, yn hytrach, y rhieni neu'r gwarcheidwad â chyfrifoldeb rhiant.

[16] UK Poverty 2024, Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2024.pdf

Ar gyfer yr Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau ym mis Ionawr 2021, lluniodd Llywodraeth Cymru fersiwn hawdd ei deall o'r ddogfen ymgynghori: Newid y rheolau i wneud adeiladau'n fwy diogel ymgynghoriad-hawdd-ei-ddeall.pdf (llyw.cymru) a lluniodd fideo byr yn crynhoi'r prif themâu a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar wella'r dull o ymdrin â diogelwch adeiladau. Adeiladau mwy diogel yng Nghymru: fideo crynodeb o'r ymgynghoriad [HTML] | LLYW.CYMRU.

Mewn ymgynghoriad â'r Uned Hawliau Plant, nododd Plant yng Nghymru y byddai angen mesurau diogelu a llesiant priodol ar gyfer unrhyw waith gyda phlant ar y pwnc sensitif hwn, ac y byddai angen iddo fod yn ystyriol o drawma. Cynghorwyd y dylid derbyn tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli yn hytrach nag ymgymryd â gwaith ymgysylltu cyfranogol pellach â phlant, pobl ifanc a rhieni ac ystyried cyfleoedd pellach i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r rheoliadau a'r canllawiau.

Caiff asesiadau effaith pellach eu hystyried fel y bo'n briodol maes o law wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth a byddant yn darparu rhagor o fanylion am union natur y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru). Bydd is-ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad, bydd cyfleoedd i ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, wrth i'r rheoliadau a'r canllawiau gael eu datblygu. Bydd yn haws i'r rhanddeiliaid hynny ragweld yr effeithiau ar y cam hwnnw.

### 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Bwriedir i'r Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) wneud adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn fwy diogel, a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr holl breswylwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Drwy gyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer meddiannu a rheoli'r adeiladau hyn yng Nghymru, bydd yn helpu i sicrhau bod pob preswylydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel yn yr hirdymor. Effaith y Bil yw lleihau'r risg o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch tân a diogelwch strwythurol, gan osgoi marwolaethau ac anafiadau, a gwneud i bob preswylydd deimlo'n fwy diogel yn ei gartref.

Nod y Bil yw creu amgylcheddau byw mwy diogel a bydd yn helpu i sicrhau bod preswylwyr yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel yn yr hirdymor. Bwriedir i'r Bil atal a lleihau effaith tanau a digwyddiadau difrifol eraill mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth. Bydd y gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd yn nodi'r rhai sy'n gyfrifol, yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau ac yn eu dwyn i gyfrif am ddiogelwch adeiladau. Yn ogystal â'r buddion amlwg i iechyd drwy atal marwolaethau ac anafiadau, bydd y Bil yn gwella llesiant meddyliol pob preswylydd mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth.

Bydd y gyfundrefn newydd yn gofyn am gydweithrediad rhwng rhanddeiliaid, gan gynnwys preswylwyr, lesddeiliaid, personau atebol, awdurdodau diogelwch adeiladau ac awdurdodau tân ac achub. Yn benodol, bydd gan breswylwyr lais cryfach o ran y ffordd y caiff yr adeiladau y maent yn byw ynddynt eu rheoli.

Bydd dulliau gwell i ymgysylltu â phreswylwyr a phroses gwyno ffurfiol yn sicrhau bod pryderon rhieni a gwarcheidwaid yn cael eu clywed ac yr ymdrinnir â nhw.

Bydd hyn yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch a sefydlogrwydd i breswylwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc, sy'n hanfodol ar gyfer eu llesiant seicolegol ac emosiynol.

Mae'r broses o ddatblygu'r polisi wedi bod yn seiliedig ar waith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei chynigion cychwynnol mewn papur gwyn Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2021. Mae gweithgareddau ymgysylltu wedi cynnig gwybodaeth werthfawr am y materion sydd o'r pwys mwyaf i bob preswylydd. Gan weithio gyda TPAS Cymru, rydym wedi cynnwys cymdeithasau a grwpiau preswylwyr er mwyn sicrhau y caiff llais a safbwyntiau cynrychiolaeth eang o lesddeiliaid a thenantiaid eu clywed, ac y caiff eu profiadau bywyd eu hystyried. Ar yr amod y caiff y Bil ei basio'n llwyddiannus drwy'r Senedd, bydd rhanddeiliaid yn parhau i gael eu cynnwys drwy gydol y broses weithredu, gan gynnwys plant a phobl ifanc.
Mae'r Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn ymwneud yn anuniongyrchol ag Erthyglau 3, 6, 12, 13, 16, 26 a 27 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a bydd y Bil yn gwella llawer o'u hawliau a chaiff y rhain eu hystyried isod.

Bwriedir i'r Bil wella diogelwch, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Mae'r Bil yn cyd-fynd â sawl un o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gefnogi hawliau plant i breifatrwydd, bywyd teuluol ac amodau byw diogel. Bydd yn bwysig ystyried strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ymhellach yn ystod y cyfnod gweithredu, gan ymdrin ag unrhyw heriau posibl a sicrhau y caiff y mesurau diogelwch hyn eu rhoi ar waith y disgwylir iddynt fod o fudd i bob preswylydd, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

| **Erthyglau neu Brotocolau Dewisol CCUHP** | **Yn gwella (X)** | **Yn herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 3 Ym mhob gweithred sy’n ymwneud â phlant, p’un a ymgymerir â hwy gan sefydliadau lles cymdeithasol cyhoeddus neu breifat, llysoedd barn, awdurdodau gweinyddol neu gyrff deddfwriaethol, rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth. | X | | Mae'r Bil yn blaenoriaethu lles pennaf plant drwy sicrhau bod mesurau diogelwch yn cael eu cynllunio i amddiffyn pob preswylydd. Mae hyn yn arwain at safonau diogelwch mwy llym ac amgylcheddau byw mwy diogel. |
| Erthygl 6 Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Dylai partïon y Confensiwn sicrhau, i'r | X | | Mae sicrhau bod plant yn datblygu'n iach drwy ddarparu amgylchedd byw diogel ac iach yn cyd-fynd â nodau'r Bil. Mae hyn yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| graddau eithaf sy'n bosibl, fod plant yn goroesi ac yn datblygu. | | | cynnwys mesurau i atal a chyfyngu ar danau a hybu llesiant cyffredinol. |
| Erthygl 12 Mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn yn rhydd am bob mater sy'n effeithio arnynt, a dylai eu safbwyntiau gael eu hystyried yn briodol yn unol ag oedran a lefel aeddfedrwydd y plentyn. | X | X | Mae sicrhau y caiff lleisiau plant eu clywed yn y broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â diogelwch adeiladau yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb tuag at eu cartrefi. Ar hyn o bryd, nid yw'r Bil yn bwriadu ymgysylltu â phlant fel rhan o'r strategaeth ymgysylltu â phreswylwyr. Mae hyn yn golygu na allant fynegi eu barn fel rhan o'r broses honno, sydd o bosibl yn amharu ar eu hawl o dan Erthygl 12. Caiff cyfleoedd pellach eu hystyried ar gyfer ymgynghori â phlant a phobl ifanc sy'n byw mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yn ystod y cam gweithredu. |
| Erthygl 13 Mae gan blant yr hawl, yn amodol ar gyfyngiadau, i ryddid mynegiant; bydd yr hawl hon yn cynnwys rhyddid i geisio, cael a rhoi gwybodaeth a syniadau. | X | X | Er y bydd y Bil yn gwella diogelwch pob preswylydd, ni chaiff y rhai dan 18 oed eu cynnwys yn y strategaeth ymgysylltu â phreswylwyr ond byddant yn cael gwybodaeth fel rhan o'r aelwyd ehangach. Gall cyfyngu ar wybodaeth effeithio ar eu gallu i eirioli drostynt eu hunain mewn rhai sefyllfaoedd. |
| Erthygl 16 Ni chaniateir i unrhyw blentyn gael ei orfodi i ddioddef ymyrraeth fympwyol neu anghyfreithlon â’i breifatrwydd, â’i deulu, â’i gartref na’i ohebiaeth nac ymosodiadau anghyfreithlon ar ei anrhydedd a’i enw da. | X | | Mae'r Bil yn ymgorffori mesurau i sicrhau y caiff preifatrwydd plant ei ddiogelu mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth.  Bydd angen rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw er mwyn cael mynediad i eiddo am resymau penodedig. |
| Erthygl 26 Cydnabod yr hawl i bob plentyn gael budd nawdd | X | X | Mae darparu cymorth ariannol yn helpu i gynnal cartrefi diogel, a byddai mynd i'r afael â materion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| cymdeithasol a chymryd y mesurau angenrheidiol i sicrhau bod yr hawl hon yn cael ei gwireddu'n llawn yn unol â chyfraith genedlaethol. | | | economaidd-gymdeithasol yn lliniaru'r effaith ar breswylwyr o ran cost. Fodd bynnag, nid oes bwriad i gynnig cymorth ariannol fel rhan o'r Bil, ac mae'n debygol y caiff y costau eu trosglwyddo i breswylwyr, gan gynnwys teuluoedd. . Caiff hyn ei ystyried ymhellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| Erthygl 27 Mae gan blant hawl i gael safon byw sy'n ddigonol ar gyfer eu datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol. | X | | Mae'r Bil yn hyrwyddo ac yn gwella amgylcheddau byw diogel ac iach, gan gyfrannu at lesiant cyffredinol plant. |

Ni fydd effaith ar Hawliau Dinasyddion yr UE.

## 4. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Fel rhan o'r Bil, bydd angen datblygu rheoliadau ymhellach yn ystod y cam gweithredu a chaiff anghenion plant a phobl ifanc eu hystyried ymhellach.
Er mwyn sicrhau bod yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn effeithiol ac i nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol, byddwn yn rhoi'r mecanweithiau monitro ac adolygu canlynol ar waith:

**Adolygiadau Rheolaidd:** Ailystyrir yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn rheolaidd er mwyn asesu a yw'r effeithiau a ragwelwyd wedi dod i'r amlwg ac i nodi unrhyw effeithiau newydd neu effeithiau annisgwyl ar blant a phobl ifanc.

**Diweddariadau Is-ddeddfwriaeth:** Ar gyfer unrhyw is-deddfwriaeth, caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu manylion penodol y cynigion newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr effaith ar blant yn cael ei hasesu'n barhaus ac yr eir i'r afael â hi'n barhaus.

**Casglu a Dadansoddi Data:** Caiff gweithgareddau casglu a dadansoddi data parhaus eu cynnal er mwyn monitro'r canlyniadau mewn perthynas â diogelwch, iechyd a llesiant plant. Bydd hyn yn ymwneud â data ansoddol (e.e. adroddiadau ar ddigwyddiadau).

**Cyhoeddi a Thryloywder:** Ar ôl ei adolygu, caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei gyhoeddi er mwyn cynnal tryloywder ac atebolrwydd. Mae hyn yn galluogi aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid i weld yr ymrwymiad parhaus i hawliau plant.

**Diwygiadau i'r Polisi neu'r Broses Weithredu:** Yn dilyn yr adolygiad, os bydd y gwaith monitro yn dangos nad yw'r effeithiau a nodwyd yn yr Asesiad gwreiddiol o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi dwyn ffrwyth, neu os bydd canlyniadau anfwriadol, cymerir y camau canlynol.

**Newidiadau i'r Polisi**: Yn seiliedig ar y canfyddiadau, byddai unrhyw addasiadau polisi yn cael eu hystyried er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc.

**Newidiadau i'r Broses Weithredu:** Os bydd yr adolygiad yn tynnu sylw at broblemau o ran y ffordd y mae'r polisi yn cael ei roi ar waith, gwneir newidiadau er mwyn gwella'r prosesau a sicrhau bod amcanion y polisi yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

**Dulliau Cyfathrebu Gwell:** Eir i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir mewn dulliau cyfathrebu neu ymgysylltu â phlant er mwyn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed a'u hystyried mewn datblygiadau polisi yn y dyfodol.

**Gwelliant Parhaus:** Bydd y broses adolygu yn iteraidd, a chaiff y gwersi a ddysgwyd eu hymgorffori mewn Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant a phrosesau llunio polisïau yn y dyfodol er mwyn gwella'r ffordd y caiff hawliau plant eu diogelu a'u hyrwyddo'n barhaus.

Bydd y mecanweithiau hyn yn sicrhau bod yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn parhau i fod yn ddogfen fyw sy'n datblygu yn unol â'r polisi a'i effeithiau, gan gynnal pwyslais cryf ar ddiogelu hawliau a llesiant plant a phobl ifanc.